YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVII. HYDREF, 1947. RHIF 10.

Credaf.

Gan y Parchedig JOHN C. BALLANTYNE, M.A.

YR WYF YN UNDODWR.

CREDAF yn UNDOD Y CYFANFYD, fod yng nghanolfan Natur Enaid sy'n trefnu, sy'n tywys, sy'n rheoli, a bod deddf—ddeddf ddigyfnewid dragwyddol, yn amrywio mewn gweithrediad, ond y mae'r amrywiaethau'n cydgordio—yn gweithredu drwy'r cyfanfyd. Parchaf athrylith a dysg yr Undodwr enwog hwnnw, Syr Isaac Newton, gwyddonydd, athronydd, diwinydd, a welodd yn glir a'i feddwl treiddiol ysbrydoledig yr Un Deddfroddwr sydd o'r tu ôl i'r deddfau y mae ehangderau mawrion ac amrywiol Bôd dan eu llywodraeth. Ysgrifenna Alfred Noyes fod llaweroedd wedi dal fflachiadau o'r gwirionedd, rhyw gipolwg rhannol ohono,

> ". . . till one eagle-spirit soared,
> Found the one law that bound them all in one,
> And through that awful unity, upraised
> The soul to Him who made and guides them all".

Credaf fod un Ysbryd, Dirwedd (Reality) creadigol, yn treiddio drwy bob peth, yn ysgogi pob peth, yn unoli pob peth, yn rhoi iddynt eu bôd,

> "Everything wondrous, suggestive, with meaning inborn in it,
> Everything stamped with the mark of eternal significance".

Credaf yn UNDOD DUW—yr Un Duw, y Tad Hollalluog, yr Enaid y mae pob enaid yn hanu ohono, "Doethineb ac Ysbryd y cyfanfyd, yn cyrraedd ei ddatguddiad uchaf ym meddwl a chalon y gorau ymhlith dynion, yn ei ddangos ei hun fel Bywyd, Gallu, Ewyllys,

Pwrpas, Prydferthwch, Gwirionedd, Cariad, 'yn ein hamgylchynu yn ôl ac ym mlaen, ac yn gosod ei law arnom', yn ein deffro i ryfeddu, i barchu, i ddiolch, ac i frwdfrydedd dros yr Uchaf".

Credaf yn UNDOD Y DDYNOLIAETH oddifewn i bwrpas Duw, Tad pawb, y datguddir ei Natur yn hanes hir dyrchafu dyn "o'r bwystfil i'r etifedd", yn ymdrechion ac ystormydd ac anturiaethau'r presennol, ac yn nymuniadau dyfnaf a breuddwydion anwylaf meddyliau gorau pob cenedl a llwyth a chred ac oes a gwlad. Credaf, pa mor wan bynnag yr ydym, pa mor isel bynnag y syrthiwn oddiwrth amcan Duw, y ganwyd pob un ohonom o'r Un Anherfynol Dragwyddol Gariad oherwydd fod arno ein heisiau, ein heisiau ni bawb, ein heisiau am byth. Credaf fod dynolryw i gyd yn un ynddo ef. Yr wyf yn Undodwr.

A ydyw hyn yn swyddogol ac awdurdodedig? Na. Nid oes awdurdod a all ddiffinio, neu mewn rhyw ffordd ddeddfu termau fy nghred. Nid oes gredo, na llyfr, na chwrdd Eglwys, nac offeiriadaeth, a'm gorfydd i gydffurfio â rhyw gyffes bendant. Ymhlith yr Undodiaid y mae gwahanol farnau am y Beibl, am berson Iesu, ac am lawer testun arall; ond cytunant bob amser ar hyn—ein rhyddid i ddefnyddio ein rheswm a'n barn ar y materion hyn, a chytunant, uwchlaw popeth, ar y rhyddid i gyfathrachu yn bur a didwyll â'r Un Ysbryd Creadigol.

Daliadau, syniadau ydyw'r rhain. Ac yn awr beth am *fy nghrefydd.* Canys nid yw crefydd yn gynwysiedig mewn daliadau a syniadau er fod y rhain yn wir werthfawr. Atgofir ni gan John Hamilton Thom, ". . . we ought to be aware of a subtle danger, of allowing much discussion on matters of religion to draw us away from God".

YMGYRHAEDDYD AT DDUW.

Gwyddom fod y diffiniadau o Grefydd yn lleng. Derbynier hwy fel pe baem wedi eu darllen. Yn hytrach gadewch i ni fynd at galon y peth hwn.

Yn nyfnderoedd animistiaeth ac aml-dduwiaeth ac addoli hynafiaid neu ar uchelderau gweddi, sylweddolwn fod argyhoeddiad o "Rywun dros ac uwch", y gallu neu'r galluoedd sy'n amgylchynu dyn, ac "ymestyn" yr unigolyn bob amser, fel y dywed Trotter, "at fôd arall ac uwch na'i fôd ei hun", a cheisia sefydlu perthynas rhyngddynt. Edrycher arnynt yn lladd yr anifail cysegredig ac yn chwilio yn ei goluddion am arwydd a darogan, rhyw neges oddiwrth y duwiau; gweler hwy'n tyrru i wrando ar lais yr oraclau—O'r fath ffug ffol!—y llais sy'n llefaru drwy bibell blwm a genau cerfiedig, yn credu mai hwn ydoedd llais y gallu uwch. Gweler hwy'n lladd yr aberth, ac yng ngwythiennau'r anifail rhed gwaed eu duw; yna yfant y gwaed ac ymolchant ynddo, fel y bydd iddynt ddod i

gymundeb agosach, i gyswllt mwy byw, â'r gallu . . . O drueni'r ymdrechion hyn !—rhyw ganu mewn seiniau dieithr y gân gyffredinol, "Yn nes, fy Nuw, i ti", ond yn methu'n llwyr â boddio galwadau a gofynnion yr ysbryd. Canys Ysbryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a fyn siarad ag ef siarad mewn ysbryd a gwirionedd.

Yn awr, y mae gwreiddiau fy nghrefydd i yn y lle y tardd pob crefydd ohono. Mynnaf innau hefyd ymestyn at y "bôd arall ac uwch" a theimlo'r cyffyrddiad bywiol. Mynnaf innau hefyd fwyta bara ac yfed gwin blasus cadernid sy'n gryfach nag eiddilwch fy anghymwyster i. Ac ni allaf feddwl am grefydd teilwng o'r enw nad ydyw'n gweddïo gyda thaerni dwys ein cyndeidiau anllythrennog, "O for a *closer walk* with God !" Mynnaf fy hunaniaethu â'r Un Tad Cyffredinol. Mynnaf fod mewn cytgord â'i bwrpas tragwyddol, canys dyna'r unig bwrpas a gyflawnir. *Fy nghrefydd ydyw r hiraeth am Dduw, yr ymdrech i ddynesu ato a chael y boddhad a'r llawenydd sy'n dod o gytgord â Duw.*

Beth a all fy nwyn i'r berthynas gydgordiol hon ? Trwy ba fath o anturiaethau y caf fynedfa i undeb agosach ag ef ? Daw hyn a mi at galon yr anturiaeth.

Gweddi.

Yn y lle cyntaf y mae'r ymddiddan uniongyrchol a dilyfethair, *ymarfer y presenoldeb*. Dywed Emerson, "O my brothers, God exists. Let man learn the revelation of all nature and all thought to his heart, that the Highest dwells with him. But if he would hear what the great God speaketh, he must do as Jesus did, he must go into his chamber and shut the door". Trwy weddi y rhoddir gras Duw a phrofiad o'i Ysbryd yn dod i mewn i ymdrech ein bywydau amherffaith, siomedig, hyd yn oed yn yr oriau tywyllaf, a theimlir a gwybyddir y cytgord y chwiliwn amdano. Rhoddir grym mewn dymuniad a ffydd yn lle ofn ; cynhelir ni pryd y byddem, fel arall, yn suddo ; rhoddir inni nerth i gerdded yn gywir a chymorth i drysori'r da a throi'r *gwael* yn *orau*.

Ond, wrth gwrs, ni all yr ymddiddan hwn ohono'i hun gynnal y cytgord angenrheidiol : po ddwysaf y weddi, mwyaf yr angerdd i godi ar ein traed, yn gliriach y gwelwn mai *peth i'w byw* yng nghanol symudiadau byd yw'r wir berthynas sy'n unol â Duw—nid yn gymaint yn y pethau a wneir neu a ddywedir ond mewn bywyd o ansawdd neilltuol a thôn a bwriad mewnol. Ofer a ffug ydyw crefydd oni bydd yn cyfarwyddo bywyd. Yn fynych dan feichiau'r dydd y cwyd y gân, "Yn nes, fy Nuw, i ti".

Ac er mwyn sicrhau a chynnal y berthynas unol ddymunol hon â Duw, rhaid i mi gadw mewn *pertnynas arbennig â'm cyd-ddynion.* Canys os ydym i gyd yn blant i'r Un Duw, fel y cred yr Undodwr, y maent mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn frodyr a chwiorydd i mi,

ac y mae fy estroneiddio fy hun oddiwrthynt yn dinistrio fy nghytgord â Duw. Ynddo ef yr ydym yn bod, a rhaid wrthynt hwy a minnau *gyda'n gilydd* er mwyn cyflawni'r pwrpas dwyfol.

"Oh, not from them and life away,
But through them, with them, up to Thee".

Cyfeillach.

Ym mhob ymdrech tuag at gyfeillach wirioneddol â hwy dof o hyd i gyfeillach newydd ac agosach â'n Tad. Gwn, o leiaf am rai o'r anawsterau. Nid anghofiaf ddyfnderoedd affwysol yr annynoliaeth y disgynnodd dynion mewn gwirionedd iddynt. Y mae gennyf brofiad llosg o broblem Lliw. Gorfu arnaf dreulio llawer o amser mewn carcharau, ac ymhlith pobl y mae eu gweithredoedd gwael, gwaradwyddus, ffiaidd yn eu dwyn i'r lleoedd hyn. Ond sicrheir ni gan lywodraethwyr y carcharau a gweithwyr yn llys yr heddgeidwaid ac eraill fod "talpau o aur pur yng nghudd yn y clai cynefin". Ni honnaf wybod dirgelwch pechod a dioddefaint. Ond os diarddelir un enaid yn y diwedd o gadwedigaeth, i mi, beth bynnag, gwedir Tadolaeth Duw. Yr ydym yn rhwym gyda'n gilydd ym mwndel bywyd, a rhaid i bob un dderbyn ei ran o'r cyfrifoldeb difrifol. Nid rhywbeth i'm diddori yn unig ydyw pwrpas Duw ; y mae'n llosgi ; y mae'n hawlio cymaint o ymddiriedaeth lle nid ymddengys y ffeithiau yn ddigon i gyfiawnhau'r ymddiriedaeth ; ac y mae fflam methiant ar ôl methiant yn llosgi ac yn gadael craith. Ond mi a wn hyn, drwy geisio gwneud fy rhan yng ngwaith enfawr cadwedigaeth, fe'm tynnir yn agosach at fy nghyd-ddyn ac yn agosach at Dduw.

Dywed Emerson, "The power, which is at once the spring and regulator in all efforts of reform, is the conviction that there is an infinite worthiness in man . . ." Credodd yr Undodiaid yn y peth hwn, a buont yn arloeswyr yn y gwaith mawr o ryddhau gogoniant cloedig yr enaid dynol. Aberthodd Maria Sidgwick a Harriet Beecher Stowe eu bywydau yn yr ymdrech dros ryddhad y caethweision ; Dorothea Lynde Dix dros y claf eu meddwl ; Mary Carpenter dros blant-famau yr India . . . Yn yr ymdrech dros ryddid dinesig, dros ryddfreinio benywaid, dros yr olaf, y colledig, a'r lleiaf, y ffydd yn Nhadolaeth Gyffredinol Duw a wnaeth y rhai hyn yn dyner ac yn wrol yn eu brawdoliaeth. Credaf na fydd i ni frawdoliaeth fyd-lydan hyd nes y bydd i ni i gyd, o bob cenedl a chred, edrych i'r lan at yr Un Ysbryd Creadigol, a chyda'n gilydd gael ein defnyddio fel cyfryngau ei bwrpas.

Ac arweinir fi i'r berthynas gydgordiol â Duw gan *yr Eglwys*. Ar risiau'r deml dywedodd Euthyphro wrth Socrates, "Crefydd yw'r gelfyddyd sydd gan y duwiau a dynion i wneud trafnidiaeth â'i gilydd". Ac nid ar eu pennau eu hunain gan unigolion y

gwneir y drafnidiaeth yma, "yr unig gyda'r Unig". "Y mae crefydd", medd Dr. Marrett, "yn gynulleidfaol". Dywed na ellir amgyffred fod anwariaid o'u pennau eu hunain wedi datblygu eu crefydd o'u hymwybod mewnol ; "meddyliodd dynion am y pethau hyn gyda'i gilydd ; na, treuliwyd oesoedd cyfain o fyw a meddwl gyda'i gilydd cyn eu gwneud beth ydynt.

Rhaid i ddyn wrth gyfarwyddyd Deall sy'n uwch na'r eiddo ei hun. Ond ym mha ffordd y gall ddarganfod yr Ewyllys ? Nid anturiaeth rwydd mohoni ! Dywed Paracelsus wrth Festus iddo wangalonni oherwydd—

> "The constant talk men of your stamp keep up
> Of God's will, as they style it ; one would swear
> Man had but merely to uplift his eye,
> And see the will in question charactered
> On the heaven's vault ! . . ."

(*I'w barhau*).

Calon Siriol fel Meddyginiaeth.

Gan y Parchedig D. Evans, Cwmiago.

Hynod iawn luosoced yw nifer y cymdeithasau a fu ac y sydd mewn bod, wedi'u sefydlu i ateb rhyw ddiben ddaionus a bendithiol ym mywyd rhyw ddosbarth neu arall o ddynion. Eithr y gymdeithas a apeliodd yn eithriadol gryf at rywbeth dwfn yn fy natur oedd y gymdeithas a ddaeth i fod yn ystod y "rhyfel mawr" cyntaf, tan yr enw *The Smiling Society*.

Cymdeithas hynod ydoedd ar gyfrif ei hamcan ; nid llai hynod ar gyfrif ei dechrau. Bu un adeg yn ystod pedair blynedd y rhyfel pan oedd y rhagolygon o barthed i'w therfyn yn ddu dywyllaf ; ofnid a darogenid bod y gelyn ar fin ennill buddugoliaeth, a bod haul Prydain Fawr yn nesu at orwel ei machlud ; a llenwid calon pob Prydeiniwr â phryder. Bob bore, arferai nifer o ddynion gyd-deithio tua'r Brif Ddinas ; a chydymdynghedasant na wnaent hwy golli gobaith y deuid o'r drin waedlyd yn fuddugoliaethus ; dal ati i wenu a gobeithio'r gorau oedd yr arwyddair. Dyna ddechrau'r gymdeithas y cyfeiriwyd ati. Ymresyment fel hyn ; er bod yr awyrgylch yn dywyll, nid atebai un diben i ymdristau a llwfrhau ; rhaid oedd iddynt, meddent, gadw'n golwg ar ochr olau'r cwmwl, wanned ydoedd.

Dechrau syml a fu dechrau'r gymdeithas ; ni chanwyd un utgorn i gyhoeddi'i geni ; eithr apeliodd y syniad a oedd tu cefn iddi at y wlad, fel y cynhyddodd ei haelodaeth gyda chyflymdra digyffelyb, a chyfenwyd hi *The Smiling Society*. Gwir yw na bu ei hoedl yn hir ; eithr sicr yw iddi ateb diben rhagorol tra fu mewn bod.

I'r gymdeithas hon, fel i bob cymdeithas ; yr oedd rheolau. Un o honynt oedd hon : bod pob aelod i wneuthur ei orau, nid yn unig i feithrin sirioldeb yn ei galon ei hun, eithr i wneuthur a fedrai i feithrin sirioldeb yn eraill y deuai i gyffyrddiad â hwynt. Rheol arall : bod pob aelod i droi'i olwg tua chodiad haul, nid tua'i fachlud ; mewn geiriau eraill, i ddal ati i obeithio bod amser gwell i ddod, ac nad dirywio o dda i'r drwg, o ddrwg i waeth, a wna pethau. Rheol arall eto : bod pob aelod i'w arfer ei hun i chwilio am sylw ar ochr olau popeth a ddigwydd, a darbwyllo eraill, trwy gyngor ac esiampl, o wneuthur yr unpeth. Dyry'r tair rheol hyn inni syniad digonol glir o barthed i'r amcan, ac o'r dull y trefnid i'r amcan gael ei ddwyn i weithrediad.

Sylwyd eisoes mai cymdeithas hynod oedd hon—hynod ar gyfrif newydd-deb ac eithriadedd ei hamcan, ac eto, nid yn hawdd y gellir dychmygu am gymdeithas a mwy o angen amdani. Onid llawer rhy brin yw'r ysbryd siriol a alluoga'i berchennog i edrych ar ochr olau bywyd a'i brofiadau amrywiol. A dyngarol, ie, crefyddol, yw pob cyfrwng a ddyry i ddyn help i'w feithrin. Onid ein profiad yw—bod yr ysbryd llawen, siriol, gobeithgar, yn fwy ffafriol i ddatblygiad y gorau y sydd ynom na'r ysbryd gwrthwynebol ?

Gwir yw na fedr neb fyw'n wastadol ar uchelnod sirioldeb a gobaith. Daw adegau ym mywyd pobun pan syrth ar ei waethaf i a elwir gan Delynog yn "bentref iselder ysbryd". Brydiau hyn, pruddheir yr ysbryd, ymedy gobaith o'r galon, tywyllir y dyfodol gan gymyl na fedr y mwyaf llygatgraff weld un pelydryn o olau, gan ddued ydynt. Oes rhywun mewn bod a hoffa gyflwr o'r math hyn ? Nid yn unig nis hoffwn, ei duedd anocheladwy yw parlysu pob ymdrech, esgor ar dlodi enaid, sychu ffynnon pob dedwyddwch. Y mae rhai mathau ar lyfrau—Llyfr y Pregethwr, un ohonynt—na ellir eu darllen heb adael argraff anffafriol ar y meddwl, gan mor ddu, mor ddiobaith, mor ddigalon, yr ymddengys pethau o edrych arnynt yng ngolau a ddarllenir. Onid gwell, ie, milgwell, y llyfrau o duedd i gryfhau ffydd a gobaith bod y ddynoliaeth â'i hwyneb tuag i fyny ?

Efallai y cyfyd rhywun wrthddadl i'r perwyl na ellir yn hawdd gadw i ffwrdd brofiadau o duedd i ddigalonni, i bruddhau, i droi'r olwg at agweddau hyll bywyd. Gwir ddigon yw hyn ; yn wir, amheuaf ai mantais a fyddai llwyr ryddid o brofiadau annymunol. Anawsterau o bobmath, dyrysu o gynlluniau, gweld a obeithiasom yn dod i'r dim, dagrau'n llanw'r llygaid : onid cyfryngau ydynt,

o'u hwynebu yn yr ysbryd iawn, o duedd i ddwyn i'r golau y gorau y sydd yn y natur ddynol? Eithr maentumiaf mai'r ysbryd siriol yn unig a fedr ein dwyn trwyddynt yn goncwerwyr. Ys dywed un o'n beirdd (pwy, ni chofiaf):

"Y wên sydd fwy drud na dim yn y byd
Yw'r wên trwy dy ddagrau a ddaw."

Gorfodaeth Filwrol.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A., Aberystwyth.

Ym mhwyllgor blynyddol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru a gynhaliwyd yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd, adeg cyrddau blynyddol y Gymdeithas codwyd y cwestiwn o orfodaeth filwrol—a oedd yn iawn i'w gadw ymlaen yn amser heddwch neu a ddylid ei gondemnio. Ar ôl trafod y mater am ryw dipyn o amser a chlywed gwahanol farnau arno pasiwyd, ond nid yn unfrydol, mai ei gondemnio a ddylid wneud. Ond nid i gofnodi'r ffaith yma y dywedaf hyn, eithr yn hytrach er cyfeirio at un cwestiwn a ofynnwyd ynghwrs y drafodaeth, sef "Os ydych yn mynd i gondemnio gorfodaeth filwrol (yn amser heddwch), beth ydych am roi yn ei le er mwyn cael digon o ddynion i'r lluoedd arfog?" Ar y pryd nid oedd nac amser na hamdden i geisio rhoi ateb i'r gofyniad, ond teimlaf y dylid ceisio ei ateb, a dyna felly yw amcan yr ysgrif fechan hon.

Fy ateb cyntaf, ac un sydd yn fy marn i yn derfynol, yw nad oes angen rhoi dim yn ei le, nad ydym ni fel gwlad mwyach mewn ffordd i gadw rhyw filiwn a chwarter o ddynion yn y lluoedd arfog a bod cymaint o'u hangen yn y gwahanol ddiwydiannau. Rhaid wynebu ffeithiau fel ag y maent heddiw ac nid fel yr oeddynt gan mlynedd, neu hyd yn oed hanner can mlynedd yn ôl. Pryd hynny hwyrach y gallasai'r wlad fforddio cadw rhyw filiwn o ddynion yn y fyddin a'r llynges, ond heddiw a chyflwr y wlad fel ag y mae ac angen pob dyn a dynes a ellir eu hebgor i wneud rhyw waith defnyddiol er lles y wlad nid yw hynny bellach yn bosibl. Dywed un awdurdod ym mwletin Gorffennaf yr *Oxford University Institute of Statistics* fod yn rhaid i'r wlad yma dynnu rhif y lluoedd arfog i lawr o ryw filiwn a chwarter i ryw dri chwarter miliwn neu wynebu methdaliad. Unwaith eto, rhaid wynebu ffeithiau. Am rai canrifoedd, ac yn enwedig oddiar dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, buom yn allu ymherodrol ac yn ymhyfrydu mewn paentio map y byd yn goch, eithr gyda dyfod yr ugeinfed ganrif mae'r rhod yn

dechrau troi—y plant yn tyfu i fyny yn ddynion a'r coch mewn llawer achos yn troi yn binc ac mewn un yn wyrdd. A chyn wired ag y bydd i'r haul godi yfory yna yn ei blaen a wna'r duedd yma a'n gadael ni rywbeth yn debyg i iâr sydd a'i chywion wedi ei gadael, er nad yn hollol felly. Rhaid inni wynebu'r ffaith nad ydym mwyach yn allu ymherodrol ac fod y llawryf wedi pasio i ddwylaw eraill —yr Unol Daleithiau a'r U.S.S.R. Rhaid inni felly leihau rhif ein milwyr mewn gwledydd tebyg i'r Almaen, China, Groeg, Japan a Gwlad yr Addewid, ac mewn amser eu galw yn ôl yn gyfangwbl. Pwy a wad na cheir digon o wirfoddolwyr wedyn i ateb holl ofynion y fyddin, y llynges a'r awyrlu ?

Y mae yna ddau beth arall o leiaf a ellid ac a ddylid wneud er denu pobl ieuainc i'r lluoedd arfog yn hytrach na'u gorfodi i fynd iddynt fel ysywaeth y gwneir yn awr. Yn y lle cyntaf, dylid talu cyflog dda iddynt—cymaint (os nad mwy) ag a delir i weithiwr mewn unrhyw ddiwydiant, am fod eu gwaith, sef dysgu'r ffordd orau i ladd eu cyd-ddynion, y mwyaf gwrthun y gallaf ddychmugu am dano. Ac yn yr ail le, ac y mae hyn yn fwy pwysig fyth, dylid trin y milwyr, y morwyr a'r awyrennwyr fel dynion ac nid fel cwn neu waeth, fel y gwneir yn fynych yn bresennol. Dyn yw dyn bob amser ac o dan bob amgylchiad, a chyhyd ag y byddo yn ymddwyn fel dyn haedda gael ei drin felly.

Cyn terfynu carwn ddweud mai fy ateb personol i fel gwrthwynebydd cydwybodol a gelyn anghymodlawn i bob rhyfel yw yr uchod ac nad yw yn clymu neb arall o'r rhai a bleidleisiodd dros y penderfyniad y dylid diddymu gorfodaeth filwrol yn amser heddwch.

Postscript y Golygydd.

CAFODD rhifyn Medi—rhifyn dathlu canmlwydd YR YMOFYNNYDD dderbyniad gwresog, a daeth nifer mawr o longyfarchion i law. Bydd yn dda gan y rhai y bu ganddynt law yng ngwneuthuriad y rhifyn glywed hynny, ac estynnaf innau iddynt fy niolch gwresog. Os câr rhywrai gopïau ychwanegol o'r rhifyn, y maent i'w cael oddiwrth y dosbarthwyr caredig neu o Swyddfa'r YMOFYNNYDD, Llandysul.

Rhoddir lle yn ein rhifyn nesaf i rai materion sy'n codi'n uniongyrchol o rifyn y dathlu. Diolchwn am neges amserol oddiwrth Mr. D. T. Williams, Llywydd Cymdeithas Undodaidd Morgannwg. Ymddengys yn y rhifyn nesaf.

Cynhelir Cyfarfodydd yr Hydref yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed, ger Merthyr Tydfil. Fe ddanfonir i'r cynulleidfaoedd y manylion. Byddant hefyd yn gyrddau dathlu dau canmlwydd yr achos yng Nghefn Coed, a chynhelir hwy ar Hydref 29 a 30.

Y Rhagolwg yn y Gogledd.

WRTH waelod colofn mewn rhifyn diweddar o *Baner ac Amserau Cymru*, ymddengys y pwtyn a ganlyn :

MEWN CYSGOD.

Yr oedd hi'n braf odiaeth, yr haul yn tywynnu a'r awel bron yn rhy boeth. Yng nghanol torf fechan o rai eraill—Saeson gan mwyaf, y mae'n debyg—eisteddai hen lenor adnabyddus, a brofasai lawer gofid yn ei ddydd, yn erbyn gwal adeilad ger Bryn-y-Felin. Daeth Periglor y plwyf heibio, gan gyfarch ei hen gyfaill yn ei ddull boneddigaidd arferol :

"Bore da, Mistar Blank ! Yr ydych mewn cysgod go dda yn y fan yna !"

"Ydwyf ; ond o ran hynny mewn cysgod y bum i ar hyd fy oes !"

"Gwir iawn, yn ddiau", meddai'r Periglor, tan chwerthin, "ond cofio bod mwy nag un ystyr i'r gair 'cysgod' yntê ?"

Sicrheir ni mai'r "hen lenor adnabyddus" y cyfeirir ato ydyw Undodwr amlwg a fu'n llafurio am hir flynyddoedd yn y Brifddinas a'r amgylchedd. Y "plwyf" y sonnir amdano yn y dernyn uchod ydyw Dyserth, Sir y Fflint. O bryd i bryd, yn ystod hanner canrif a mwy, bu'r "hen lenor" wrthi'n ddyfal, mewn llawer dull a llawer modd, yn ceisio trwytho enwadau amrywiol Gogledd Cymru â lefain iachus crefydd ryddfrydig. Oherwydd hynny, fe'i cyfrifid ef gynt nid yn unig fel "gwrthgiliwr" i'w ddirmygu eithr fel "gelyn crefydd" i'w erlid yn ddidrugaredd â holl arfogaeth "uniongrededd" gan y rhai "iach yn y ffydd". Erbyn heddiw, fodd bynnag, y mae pethau wedi newid yn odiaeth ym myd crefyddol y Gogledd—diolch mewn rhan ddigamsyniol i waith cenhadol didrwst, ond er hynny diwyd a diflino, arloeswyr eofn megis yr "hen lenor", a berchir yn awr gan bawb y mae'n adnabyddus iddynt. Yn wir ymhlith ei gyfeillion gorau y mae arweinwyr blaenllaw pob enwad a phlaid yn y Gogledd, byd a betws. Oes, yn sicr, y mae gobaith eto am gynnydd Crefydd Ryddfrydig yng Ngogledd Cymru. Ni bu y rhagolygon erioed yn fwy addawol yn y cyfeiriad hwn nag y maent yn yr oes ryfedd ac anesmwyth hon. Er hyn i gyd y mae galw mawr am genhadon doeth a gweledyddion claer. Diau bod digon o rai cymwys i'r gwaith ymhlith Undodwyr goleuedig cyfoes y Deheudir, yn enwedig ymysg y to ieuanc. Ond pa faint ohonynt sy'n ddigon dewr i ymateb i'r alwad ? Ar hyn i raddau helaeth y dibynna llwyddiant ein cyfundeb a dyfodol ein hachos. "Y cynhaeaf yn ddiau sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml".

SYLWEDYDD.

Yr Ymofynnydd yn Gant Oed.

(1847—MEDI—1947)

Fy hynaws Ymofynnydd—a gerdda
Ag urddas y wawrddydd ;
O'i ganfed, eled bob dydd
A'i aur gennad ar gynnydd.

Aeth huawdlfaeth ei hoedlfyw—i ddynion
O'i ddoniau uchelryw ;
Daeth breinlen dawn, llawn y llyw,
Yn dda gofres ddigyfryw.

O'i gant i ddeucant yn ddwys,—ei geyrydd
Yw geiriau'r Gwir cytbwys ;
Doeth ei gam i'w daith a'i gwys,
A'i enau'n glaer ddiamwys.

Mae f'enwog Ymofynnydd—yn broffwyd,
Tal, braffaf arweinydd ;
Grym ei oes fel arloesydd,
Dewr ei ddawn ym mrwydrau'i ddydd.

Ei arwyddair yw "Rhyddid"—ei "Gariad"
Yn goron pob glendid ;
Daw ernes ei gadernid
O'i "Wir" praff, aur eiriau prid.

Mae f'hoenus Ymofynnydd—yn deilwng
O'i dalaith ysblennydd ;
Er hwylio'n wir areilydd,
I ddal rhawd y meddwl rhydd.

Proffwyd a godwyd yn gant,—dyna'i oed,
O'n hyder daw'n ddeucant ;
O'i allu mewn diwylliant,
Daw'n wir fael o'i dyner fant.

O wyn lifiant ei leufer—ei lewych
Oleua'n ddisgleirder,
Taen wres y tân, eirias ter,
Hael athrylith aur hulier.

Dewr broffwyd, gwyn broffwydi,—swyn atgof,
Swn utgyrn y cewri ;
Sain aur lais yn arloesi,
Dyna'i fraint, ar don ei fri.

Castell Nedd. Gwrgant Morgannwg.

Priodas.

MEDI 6 yng Nghapel y Graig, Llandysul, unwyd mewn glân briodas, gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig R. Morris (B), JAMES EVANS, Bronheulog, a RAY M. RICHARDS, Ardmore.

Marwgofion.

YN ei gartref, Glyncoch, Coedgwilym, Clydach, ar Awst 19, bu farw DANIEL WILLIAM JOHN, Y.H., yn 80 mlwydd oed. Am rai misoedd bu'n clafychu wedi'r anffawd a ddigwyddodd iddo tuag adeg y Nadolig. Bu dan driniaeth feddygol yn Ysbyty Clydach. Claddwyd wrth Gellionnen y dydd Iau dilynol, a daeth torf o'i ffrindiau a'i gydnabod ynghyd. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion J. D. Jones ; Iorwerth Jones (Pant-teg) ; a J. T. Evans (Waunarlwydd). Ym marw Mr. John collodd ardaloedd Craig Cefn Parc, Clydach a Threbanos un o'u cymeriadau mawr. Dyn o bersonoliaeth gref ydoedd, wedi ei freinio â galluoedd uwchlaw'r cyffredin, a datguddiodd yntau'r galluoedd hyn yng nghylchoedd diwydiant a masnach y gymdogaeth. Gyda'i frawd, y diweddar John John, Cefn Ithrim, sefydlodd yn 1901 y fusnes Mri. J. a D. W. John, perchnogion gwaith glo. Bu'n cynrychioli rhanbarth Gellionnen ar Gyngor Lleol Pontardawe, a bu'n gadeirydd y Cyngor.

Hyd 1940 bu'n ffarmio yng Nglyn Coch, Craig Cefn Parc, a bu'n arweinydd yn achosion amaethyddiaeth yr ardal. Bu'n gadeirydd Ysbyty Clydach, ac etholwyd ef i fainc yr Ynadon. Erys tystiolaeth uchel i'w goffadwriaeth—dyn llawn, dyn sownd, yn ddylanwad dros ddaioni yn ei ardal. Yr oedd traddodiad ei dad a'i dadcu yn ddylanwad byw ar foes a rhodiad Mr. D. W. John. Datblygwyd y traddodiad teuluol hwn ar hen allor Gellionnen, ac y mae'r cysylltiad yn ddidor oddiar codi'r capel cyntaf heibio i ddau cant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Gwyddai pawb o gydnabod Mr. John fod Capel Gellionnen yn agos iawn at ei galon, a hyd y gallodd daliodd yn ffyddlon i fynychu'r addoliad. Yr oedd yn ddiacon, ac yn gadeirydd ar lawer cyfarfod a fu'n trafod materion y gynulleidfa. Beth bynnag fyddai'r galwadau ar ei fywyd llawn, gosodai hwynt ar y naill ochr pan fyddai rhyw gyfarfod eglwys yn galw am ei bresenoldeb. Cofir amdano'n cadeirio cyfarfod dathlu dau canmlwydd a hanner codi'r capel cyntaf ar fynydd Gellionnen. Ni ellir anghofio angerdd ei deimlad wrth siarad yn y cwrdd hwnnw. Mor fawr ydoedd dylanwad hen gysylltiadau ar ei fywyd ! Onid ei dadcu, Sion Ynysderw, un o gymeriadau blaenfynedol Pontardawe oedd Trysorydd y gynulleidfa pan godwyd y capel presennol yn 1802 ! Yr oedd ef yn o un o'r Undodiaid

cyntaf yng Nghymru. I'r hen gapel y mae rhestr cymwynasau Mr. D. W. John yn un hir. Ni ellir edrych o gwmpas yr adeilad heb weld rhywbeth o hyd y bu ei law ef a'i frawd o Gefn Ithrim yn ymwneud â hwynt. Iddo ef byw ydoedd crefydd, a cheisiodd fyw i wasanaethu ei gyd-ddyn. Enillodd air da'r gymdogaeth. Yr oedd ganddo athrylith arbennig i wneud cyfeillion, ac yr oedd ei hiwmor iach yn ffynhonnell o lawenydd. Gwelodd gystudd hir. Tristwch ydoedd gweld dyn a chymaint o fynd ynddo yn cael ei gyfyngu i'w wely, ond dioddefodd yn obeithiol, yn foneddigaidd, yn amyneddgar, a bu gofal tyner amdano ddydd a nos yn ystod y misoedd diwethaf hyn. Bu fyw yn adeiladol ; gadawodd argraff ar fywyd y cylch. A phan ddaeth awr yr ymddatod, daeth ato yn ei henaint, ond cafodd fod ei ysbryd yn dal yn ifanc—pan ddaeth yr awr, cafwyd ei fod yntau'n perthyn i'r cwmni hwnnw y sonia'r bardd amdanynt—

> "And departing, leave behind us
> Footprints on the sands of time".

Dinesydd ffyddlon, priod a thad annwyl, cyfaill cywir—bydd ei fyned oddiwrthym yn gwneud lle gwag ym myd y rhai a'i carai, ond fe fydd bywyd yn fwy cyfoethog ei ystyr oherwydd inni gael y fraint o gyd-gerdded ag ef. Cydymdeimlir yn fawr â'i weddw, y mab (Dr. Howell John, St. Albans) a'r tair merch (Mrs. S. W. Hicks, Mrs. E. L. Bevan, a Mrs. Gildas Morgan) a'u cysylltiadau.

Awst 29, yn 80 mlwydd oed, HANNAH DAVIES, annwyl briod Thomas Davies, Glynyrynys, Talgarreg, ar ôl ychydig ddyddiau o gystudd. Merch ydoedd i'r diweddar John a Magdalen Davies, Crugeryr—teulu sydd bron wedi diflannu erbyn hyn. Ers blynyddoedd lawer dioddefai'n enbyd oddiwrth wendid a llesgedd, a baich bron iddi oedd gwaith y tŷ. Ni allai ond symud o gwmpas y tŷ a'r buarth, er hynny cadwodd yn hynod iach a siriol ei hyspryd. Er ei chyfyngu ni rwgnachai—yr oedd fel Paul wedi dysgu bod yn foddlon i bob cyflwr. Bu hyn yn help mawr i'w chadw rhag chwerwi a suro. Er methu ohoni a dod i'r cwrdd cofiai am yr achos yng Nghapel-y-Fadfa o flwyddyn i flwyddyn. Dau gysurus fu hi a'i phriod ar hyd blynyddoedd maith—y ddau'n deall ei gilydd yn rhyfeddol. Yn anffodus mae yntau'n gaeth i'w wely ers tro maith oherwydd torri o hono ei goes. Gadawodd ei phriod, brawd, a chwaer i wylo ei cholli. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yng Nghapel-y-Fadfa, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins ; W. M. Jenkins, Talgarreg a J. O. Jones, Pencae.

Awst 29, yn Ysbyty'r Sir, Aberystwyth, EVAN EVANS, Glantre, Pontshaen yn 66 mlwydd oed. Wythnos cyn hynny pan aeth allan ben bore i gyrchu'r da i'w godro ymosododd y tarw arno—sut y bu'n hollol ni wyddom, ond bu farw yn mhen yr wythnos heb ddod ato'i hun ond yn rhannol. Hannai o deulu a chwareuodd ran bwysig ym mywyd cynulleidfa Llwynrhydowen, sef teulu Pantiorlech, ac yn Llwynrhydowen y treuliodd yntau flynyddoedd

cynnar ei fywyd, yn ffyddlon gyda'r cwrdd a'r ysgol Sul. Wedi hynny symudodd efe a'i deulu i fyw yn ymyl Capel-y-Fadfa, a rhoddodd wasanaeth da yno ar hyd blynyddoedd lawer fel diacon ac ysgrifennydd y gynulleidfa.

Gwelodd ef a'i deulu lawer o brofedigaethau—bu pump o'r plant farw ym mlodau'u dyddiau a chawsant feddau ym mynwent Capel-y-Fadfa. Aeth y fynwent yn fangre cysegredig iddo. Drwy'r stormydd i gyd cadwodd efe heb suro na chwerwi, ac ni chollodd ei ffydd yn naioni a doethineb Duw. 'Roedd yn hoff o lenyddiaeth, yn farddoniaeth a rhyddiaith. Cymerai hefyd ddiddordeb manwl a deallus ym mhynciau'r dydd a ffurfiau ei farn ei hun ar bob pwnc.

'Roedd yn amaethwr deallus a diwyd. Cymerai ddiddordeb yn y tir, yr anifeiliaid a phopeth perthynol i amaethyddiaeth. Bu'n briod cywir a ffyddlon, ac yn dad yn ystyr lawnaf y gair. Ychydig a wnai heb ymgynghori a'i deulu, ac er mai ei air ef a safai, nid oedd dim pellter rhyngddo ef a'i feibion a'i ferched. Mae'r golled i'r teulu'n fawr iawn. Boed i'r aden ddwyfol ei gysgodi. Cymerai ddiddordeb ym mhopeth a oedd er budd i'r achos yng Nghapel-y-Fadfa. 'Roedd yn ddyn cadarn, cryno o gorff a meddwl, a blin yw meddwl fod ei yrfa drosodd. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yn ymyl ei blant, a daeth torf fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins ; Lewis Williams ; W. M. Jenkins, Talgarreg, a D. Jones, Silian. Derbynied ei briod a'i blant a'i wyrion, brawd, dwy chwaer ein cydymdeimlad puraf.

Medi 14, bu farw Miss GWEN ROWLANDS, Tawelfro, Llewellyn Street, Trecynon, yn 68 mlwydd oed. Tarawyd ni â syndod y bore Llun canlynol pan glywsom y newydd trist. Bu ar ei gwyliau yn Eastbourne, a theimlai yn hwylus iawn wedi dychwelyd, er hynny ni fu yn hir iawn cyn iddi gael ei tharo â *Bronchitis*, ond nid oedd y meddyg yn credu fod unrhyw berygl mawr pan alwodd dydd Gwener i'w gweled. Dydd Sadwrn a dydd Sul yr oedd hi yn hynod o dda er fod yr anadl yn brin. Yn sydyn iawn nos Sul sylwodd Miss Wigley, y foneddiges a oedd yn byw gyda hi, fod cyfnewidiad mawr wedi digwydd, a danfonwyd ar unwaith am y meddyg, ac er iddo ddod ar ei union yr oedd, er ei syndod, yn rhy ddiweddar. Chwaer dawel, lednais a mwyn ydoedd hi, yn barod â'i chymwynas a'i thanysgrifiad at unrhyw achos da. Bu yn aelod o'r *Red Cross* am flynyddoedd a chanddi barch diffuant i'r mudiad teilwng hwn a gwelwyd cynrychiolaeth o'r *Red Cross* yn ei hangladd. Hi oedd yr olaf o'r teulu a fu mewn cysylltiad â'r Hen Dŷ Cwrdd am flynyddoedd a phan gollir teuluoedd cyfan fel hyn, a neb yn dod i lanw eu lle, fe welir bylchau mawr yn yr Hen Achos. Cyflwynwn i Mrs. Cubbins, ei nith, i Miss Wigley ac i'r perthynasau ein cydymdeimlad llwyraf yn eu hiraeth a'u gofid. Claddwyd dydd Iau, Medi 18, yn y gladdfa gyhoeddus a gwasanaethwyd gan y Parchedigion Deri Morgan ; W. Morse, ac E. R. Dennis.

Nodion yr Eglwysi.

ABERDÂR.—Cynhaliwyd Gwyl Ddiolchgarwch yr Hen Dŷ Cwrdd ar Fedi 14, a gwasanaethwyd gan y Parchedigion D. Jacob Davis, B.A., Highland Place, Aberdâr, a J. H. Coram Davies, B.A., Lewins Mead, Bryste. O ystyried y difaterwch ynglŷn â mynychu'r gwasanaethau crefyddol heddiw, bu'r cynulliadau yn neilltuol o dda. Traethodd Mr. D. Jacob Davis yn oedfa'r bore ei genadwri yn hwylus a phendant gan sylfaenu ei wersi ar gysondeb Rhoddwr Mawr y cynhaeaf. Pregethodd Mr. J. H. Coram Davies, yn Saesneg yn y prynhawn ac yn Gymraeg yn yr hwyr. Traethodd yntau ei genadwri yn hwylus a phendant, gwersi, ni a hyderwn, a heuwyd mewn tir da ac a rydd gynhaeaf mwy o ffyddlondeb a brwdfrydedd ymhlith aelodau'r Hen Dŷ Cwrdd. Teimlwn yn hapus gael gwasanaeth dau weinidog ieuanc â dyfodol disglair o'u blaen. Medrant draethu gyda phendantrwydd grymus, meddwl yn ddwys a myfyrgar. Bendith arnynt yn eu hymdrechion i gadw ysbryd rhydd-ymofyniad yn fyw. Cafwyd hwyl dda ar y canu ; cyfeiliwyd gan Mr. J. Ivor Davies a Mrs. Mildred Thomas. Llywyddwyd yn y tair oedfa gan y Parchedig E. R. Dennis.

Adolygiad.

DALIADAU DR. BARNES.

The Rise of Christianity gan E.W. Barnes, Esgob Birmingham. 1947. Longmans. 15s.

Nid ffydd sy'n ofni ffeithiau yw eiddo Esgob Barnes. Gesyd yn dra eglur ar dudalen 331 ei safbwynt o fesur a phwyso hanesion am ddigwyddiadau eithriadol a ddefnyddid ar hyd y canrifoedd fel profion o gydweithrediad Duw ag arloeswyr crefydd Israel a'r Eglwys Gristnogol—"To us who have learned to build on the understanding of the universe given by science, backed by personal religious experience and historical inquiry," rhaid taflu i'r ysbwriel wmbredd o hen ffyn baglau ffydd yr hynafiaid.

Nid oes le i wyrth aniannol yng nghyfundrefn natur, eb Esgob Barnes, ac o ganlyniad nid ffeithiau hanesyddol yw y gwyrthiau a gofnodir yn y Beibl. Pethau a ffurfiwyd i ategu'r genadwri a chred crefyddwyr hygoelus ac ofergoelus oeddynt, ond diben hollol gywir oedd gan eu dyfeiswyr, oblegid i gadarnhau ffydd y defnyddiwyd hwynt. Peth digon rhwydd yw rhoi gwyrthiau yr Hen Destament yn yr un dosbarth â Robinson Crusoe, er fod ambell

flaenor mor hen ffasiwn o hyd a chredu y dylid ymlid o bulpud a swyddfa y sawl a wna ddameg o Iona a'r morfil. Ond am wyrthiau y Testament Newydd mae eisiau ffydd oleuedig i fedru ystyried y rhain fel damhegion, ac y mae'r Esgob wedi ennill y gyfryw ffydd.

Gan na ŵyr Gwyddor ddim am ysbrydion fel achosion anhwylderau corfforol, rhaid esbonio afiechydon a briodolid iddynt yn y Testament Newydd, mewn ffordd arall,—a'r gwellhâd hefyd. 'Roedd awdur Efengyl Ioan wedi dysgu bwrw allan y gred gyntefig mewn ysbrydion aflan yn meddiannu dynion o'i ystorfa o brofion i ddilysrwydd cenhadaeth Iesu. Ac am y gwyrthiau a gofnodir gan Ioan, y maent yn anghredadwy ond fel damhegion, ac yn amhosibl yng ngolau natur.

Pa nifer o aelodau yr Eglwys Wladol, heb sôn am enwadau ymneilltuol, a fedr gadw eu ffydd ar ôl colli'r gwyrthiau ?

Ond nid yw'r Esgob yn aros gyda'r gwyrthiau a briodolir i Iesu ac eraill, eithr teifl dros y bwrdd y gred yn yr enedigaeth o Forwyn, ac yn atgyfodiad Iesu o'r bedd. Awgryma mai cynnyrch parch ei ddilynwyr yw'r stori am y bedd newydd a fwriadwyd i foneddwr, ac a fenthyciwyd i Iesu ;—ac awgryma iddo ef gael ei daflu gyda'r lladron i ffos gwŷr crogedig, lle y pydrodd. Yn hyn o beth, mae'r Esgob yn fwy anturiaethus na Kirsopp Lake a ddywed i'r dieithr ddyn (angel) ddangos bedd Iesu i'r gwragedd gerllaw y bedd gwag. Wele, bellach, esgob dysgedig, sy'n defnyddio Llyfr Gweddi awdurdodedig yr Eglwys Wladol, yn dysgu fel y gwnaeth Faustus Socinus bedair canrif yn ôl, nad oes raid i grefydd a fedr ddyrchafu ac ysbrydoli dyn wrth yr anghredadwy a'r anealladwy i wneud ei gwaith yn effeithiol.

Mae ei driniaeth o'r sacramentau, eto, yn tynnu o dan sail cred pabydd ac uchel-eglwyswr. Nid oes ganddo amheuaeth eu bod yn estronol i ddysgeidiaeth Iesu, ac na orchmynnwyd eu harfer ganddo ef. Epil paganiaeth ydynt, yn enwedig y gred fod rhin gwyrthiol ynddynt. Y mae, wrth ddangos afresymoldeb athrawiaeth y pechod gwreiddiol, yn gwneud bedyddio babanod yn wrthun fel gwrthwreiddiad i bechod gwreiddiol.

Wedi taflu o'r neilltu gymaint o gynnwys ffydd yr Eglwys fore, beth sydd ar ôl ? Erys Iesu, wedi ei drwytho yn athrawiaeth Proffwydi Israel, a'i ymwybod crefyddol cyfoethog yn cyhoeddi cynnwys ei enaid mewn dysgeidiaeth fendigedig, a'i byw hi mewn ysbryd sy'n adlewyrch o'r Tad Nefol. "These men (Prophets) fashioned ethical monotheism, the conviction that humanity is the creation of a God who is good and who demands the service of goodness." "This man (Iesu), for a brief year or so, taught in a remote district speaking of God with an intimate and beautiful certainty." "Men, captured by the thought and personality of the Christ, never apologize for this faith." (tud. 336,337). Digon i grefydd fyw yw teimlo "*grip*" Duw Iesu, ac apêl caritor Iesu ei hun.

Llyfr sy'n chwalu llawer yw hwn, ond y mae'r hyn sydd ar ôl yn rhoi sylfaen o graig i godi adeilad newydd, er hynny.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

CYNHELIR

Cyfarfodydd Chwarter

YR UCHOD YN

Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed Cymmer

Dydd Iau, Hydref 30ain, 1947

[*Y Cyfarfodydd yn rhan o ddathlu dau can mlwyddiant yr achos*]

NOS FERCHER, HYDREF 29ain am 7.

GWASANAETH YMGYSEGRIAD

Cymerir rhan gan aelodau'r gynulleidfa a phregethir gan y Parch. J. MARLES THOMAS, M.A.

PRYNHAWN DYDD IAU am 2.

Rhan Arweiniol—Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Pregethir gan y Parch. E. O. JENKINS (*yn Gymraeg*).

Anerchiad—Prifathro J. ISLAN JONES, M.A. (*yn Saesneg*).

HWYR am 6.

Rhan Arweiniol—Parch. E. R. DENNIS.

Pregethir gan y Parchedigion—

T. O. WILLIAMS, M.A. (*yn Gymraeg*).

T. L. JONES, Leytonstone (*yn Saesneg*).

NOS LUN, TACHWEDD 3ydd am 7.

Bydd cyfarfod arall cysylltiedig â'r Gymdeithas ac anerchiadau gan y

Parchn. S. E. BOWEN ; E. T. PUTIN, Caerdydd, ac eraill.

Os am Lety danfoner at y—

Parch. J. M. THOMAS, M.A., Yr Aelwyn, Cefn Coed.

S. E. BOWEN (*Ysg.*).

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul